**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Perfformiad Craffu - Gwasanaethau Plant a Theuluoedd

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Siambr y Cyngor, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Mawrth, 7 Mawrth 2023 am 4.30 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd P R Hood-Williams (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| W G Lewis | C A Holley | Y V Jardine |
| E T Kirchner | | |

**Aelodau Cyfetholedig**
T Beddow

**Hefyd yn Bresennol**

| | |
|---|---|
| Louise Gibbard | Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Gofal |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Julie Davies | Pennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd |
| Phillipa Elliott | Rheolwr Ymarfer Cyfiawnder Ieuenctid |
| Amy Hawkins | Pennaeth y Gwasanaethau i Oedolion a Threchu Tlodi |
| Liz Jordan | Swyddog Craffu |
| Kelli Richards | Prif Swyddog - Cymorth Cynnar a Phwynt Cyswllt Unigol |
| Helen Williams | Prif Swyddog - Gwasanaethau'r Glasoed a Phobl Ifanc |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wy): A M Day, K M Griffiths, S M Jones a C L Philpott

---

## 1 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

## 2 Gwahardd pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau

Ni wnaethpwyd unrhyw ddatganiadau.

## 3 Cofnodion y Cyfarfod(ydd) Blaenorol

Cytunodd y panel fod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Ionawr 2023 yn gofnod cywir o'r cyfarfod.

## 4 Cwestiynau gan y cyhoedd

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

## 5 Y diweddaraf am Gefnogaeth i Ofalwyr (gan gynnwys asesiadau)

Roedd Aelod y Cabinet a swyddogion perthnasol yn bresennol i roi'r diweddaraf i'r Panel ar y mater hwn ac ateb cwestiynau.

Pwyntiau Trafod:

- Awgrymodd swyddogion y dylai'r Panel dderbyn cyflwyniad gan ofalwyr ifanc yn y dyfodol.
- Holodd y Panel ynghylch yr angen am ofal ledled Abertawe a sut mae'n cysylltu â chyfleusterau a hygyrchedd gwasanaethau. Clywir o ran pobl ifanc, nid oes data daearyddol ar gael ar hyn o bryd ond byddai'n fuddiol i'w gasglu. Fodd bynnag, mae cynllun adnabod gofalwyr ifanc ac mae bwriad i greu rhyw fath o restr neu gofrestr ym mhob ysgol a fydd yn helpu'r gwasanaeth i ddeall yn ddaearyddol a oes unrhyw wahaniaeth rhwng un rhan o Abertawe a'r llall. O ran oedolion, nid yw gwasgariad daearyddol anghenion gofalu yn cael ei fapio ar hyn o bryd.
- Nododd y Panel fod 96 o asesiadau ar agor ar hyn o bryd, a holodd ar ba gam mae'r asesiadau hyn ac a oedd yr un asesiadau ar gael i oedolion. Clywyd bod yr amserlen ar gyfer asesiad gofalwr yn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yr un fath ag un asesiad, hynny yw 42 diwrnod o'r adeg atgyfeirio. Mae'r Gwasanaethau i Oedolion yn debyg iawn i'r Gwasanaeth Plant a Theuluoedd o ran cwestiynau wrth asesu gofalwyr ond does dim angen o ran amserlenni.
- Holodd y Panel a oedd y Gwasanaeth yn fodlon bod y mwyafrif o ofalwyr yn cael eu nodi. Clywyd yn y Gwasanaethau Oedolion fod nifer uchel o ofalwyr yn cael eu nodi ond nid yw nifer uchel o'r rhain yn manteisio ar y cynnig o asesiad gofalwr. O ran y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, nid ydynt yn meddwl eu bod wedi nodi'r mwyafrif, ond mae'n rhywbeth y maent yn parhau i wneud cynnydd arno.
- O ran seibiant, roedd y Panel am wybod a yw'r gwasanaeth yn gallu darparu cymaint ag y dymunai, a sut mae'n cael ei ddarparu. O ran oedolion, clywyd nad ydynt wedi gallu dal i fyny â'r ôl-groniad o'r pandemig ond maent yn darparu seibiant preswyl ac, ers y pandemig, maent wedi gallu darparu mwy a mwy o wythnosau o argaeledd mewn cartrefi gofal mewnol. Ar gyfer y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, mae hefyd amrywiaeth o opsiynau gwahanol ar gael i ofalwyr a rhieni.
- Holodd y panel a oes diffiniad o ofalwr. Bydd diffiniadau'n cael eu rhannu â'r Panel yn dilyn y cyfarfod.

Camau Gweithredu:

- Cyflwyniad gan ofalwyr ifanc i'w drefnu ar raglen waith y dyfodol.
- Diffiniadau o ofalwr i'w rhannu â'r Panel.

## 6 Monitro Perfformiad

Rhoddodd Julie Davies, Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd wybodaeth i'r Panel am yr Adroddiad Monitro Perfformiad ar gyfer Rhagfyr 2022, ac atebodd gwestiynau'r Panel.

Pwyntiau Trafod:

- Mae nifer y plant sy'n derbyn gofal yn debygol o godi oherwydd pryderon bod rhai plant yn gallu aros yn ddiogel gartref ac mae'n dod yn anoddach recriwtio gofalwyr maeth oherwydd yr argyfwng costau byw a rhaglen dileu elw Llywodraeth Cymru yn achosi aflonyddwch.
- O ran swyddi gwag i staff, mae dau faes yn parhau i fod yn destun pryder - Cymorth Cynnar a'r Gwasanaethau Gofal a Chymorth. Mae gan dimau ardal nifer uchel o swyddi gwag ym maes gwaith cymdeithasol, ac mae rhai ohonynt yn cael eu llenwi gan staff sydd â chymwysterau amgen. Ar hyn o bryd mae gan y Gwasanaeth nifer isel o weithwyr asiantaeth ac mae diddordeb cynyddol yn yr academi gwaith cymdeithasol.
- Holodd y Panel a oedd pryder ynghylch cynnydd yn y niferoedd a gofrestrwyd yn flaenorol ar y gofrestr amddiffyn plant a chlywodd ei fod fel arfer oherwydd bod amgylchiadau wedi newid.
- Nododd y Panel fod nifer y plant a fabwysiadwyd yn cynyddu. Clywyd bod cynnydd yn nifer y plant sy'n cael gorchmynion lleoli a gofal ac yn cael eu mabwysiadu, a chynnydd yn nifer y plant heb eu geni sy'n cael eu rhoi i'w mabwysiadu.

## 7 Papur briffio ar y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid

Rhoddodd swyddogion yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Panel am y cynnydd ers yr arolygiad ym mis Hydref 2021, pan oedd angen gwella'r gwasanaeth. Mae argymhellion bellach wedi'u rhoi ar waith ac mae gan y Gwasanaeth gyflenwad llawn o staff.

Pwyntiau Trafod:

- Holodd y Panel a allai taith person ifanc gael ei hystyried fel problem o ran pontio i oedolaeth. Clywyd mai ffocws enfawr o waith y gwasanaeth yw meddwl am y dyfodol a sut olwg fydd ar unigolyn ôl-18, gan nad ydynt am i berson ifanc aros mewn cylch o droseddu. Er mwyn deall hyn, mae unrhyw berson ifanc sy'n dod drwy'r gwasanaeth yn cael asesiad cyfannol.
- Gofynnodd y Panel ar ba adeg mae'r pontio i oedolaeth yn dechrau a chafodd wybod bod hyn mor wahanol i bob plentyn, ond gall y gwasanaeth ddysgu gwersi o'r hyn y mae'n ei wybod ac efallai ei osgoi i lawer o bobl ifanc.
- Ar hyn o bryd mae rhai wardiau yn wynebu problemau gyda beicwyr oddi ar y ffordd ac roedd y Panel am wybod beth ellir ei wneud ynghylch hyn. Clywyd os na ellir nodi'r bobl ifanc, mae'n anodd gweithio'n uniongyrchol gyda nhw. Os yw'r heddlu'n ymwybodol o bwy ydyn nhw, mae yna ffyrdd i'w cyfeirio at y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid ar sail ataliaeth.
- Nododd y Panel fod cyllid ar gyfer mwy o hyfforddiant i staff weithio gyda phobl ifanc sy'n ymddwyn yn rhywiol dreisgar. Hysbyswyd y Panel nad yw'r cyllid a

grybwyllwyd yn benodol ar gyfer darparu hyfforddiant ar y mater hwn ond pe bai'r Gwasanaeth yn nodi person ifanc sy'n dangos ymddygiad y maent yn pryderu yn ei gylch, byddent yn ceisio cefnogi'r person ifanc hwnnw yn y ffordd orau bosib.

- Teimlai'r Panel yn gyffredinol bod pethau'n symud ymlaen a bydd yn edrych yn agosach ar ffigurau perfformiad y tro nesaf y bydd yn derbyn diweddariad fel y gall y Gwasanaeth ddangos hyn.

8 **Rhaglen Waith 2022-23**

Ystyriodd y Panel y rhaglen waith a nodwyd yr eitemau ar gyfer y cyfarfod nesaf.

Daeth y cyfarfod i ben am 6.10 pm